# Y Dinesydd

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Rhagfyr/Ionawr Rhif 363 Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch Pris: 80 ceiniog

## *Taith Gerdded Noddedig i godi arian i Gylch Meithrin Pili Pala Hen Laneirwg*

Tri gŵr doeth a aeth i Fethlehem i ymweld â'r baban Iesu, ond cerdded o Aberhonddu i Gaerdydd wnaeth tri gŵr o Gaerdydd (wel dau dad a brawd ) i godi arian i Gylch Meithrin Pili Pala Hen Laneirwg Caerdydd ar benwythnos 12 a 13 Tachwedd 2011.

Fe ddechreuon nhw ar eu taith am 7 yb ar y dydd Sadwrn a chyrraedd Troed y Rhiw ychydig cyn iddi dywyllu. Dechrau eto ar y bore Sul am 7 a chyrraedd Caerdydd tua 3.30. Yn aros amdanynt yn nhafarn y Gatekeeper ar Heol Westgate roedd peint (neu ddau) haeddiannol a phryd o fwyd (diolch i reolwr y dafarn). Daeth criw o rieni a staff y cylch ynghyd i groesawu'r tri gŵr yn ôl i Gaerdydd ac i ddiolch iddynt am godi bron i fil o bunnau i brynu offer a llyfrau newydd i'r cylch. Y tri gŵr a gerddodd oedd Mark Poole (rhiant), Byron Low (rhiant) a'i fab Nathan (brawd).




Ar Dachwedd yr 8fed cynhaliwyd Gwasanaeth Cynhaeaf y Cylch, lle rhoddwyd y casgliad o duniau a bwyd sych gan y plant a'u rhieni, torth cynhaeaf (oddi wrth y Pobydd yn Tescos Llaneirwg) a basged ffrwythau o'r siop ffrwythau Countisberry Tredelerch, Caerdydd i ddau gynrychiolydd o Fyddin yr Iachadwriaeth. Dywedodd Janne Doidge Uwch Weithiwr Prosiect o Dŷ Gobaith ei bod hi wrth ei bodd gyda'r rhodd hon ac y byddai trigolion Tŷ Gobaith yn werthfawrogol iawn o'r rhodd garedig hon gan y plant. Gwnaeth Jo Walters, swyddog o'r fyddin, ddiolch i'r Cylch. Daeth hi hefyd â lluniau i ddangos i'r rhieni sut roedd y modd yr oedd pobl ddigartref yn cael eu trin wedi newid yn y ddinas dros y can mlynedd diwetha. Dros baned a phice ar ôl y gwasanaeth cafodd y rhieni a'r plant siawns i siarad ymhellach â Janne a Jo am eu gwaith yn y fyddin a sut bydd rhodd y Cylch yn cael ei defnyddio. Canodd y plant amryw o ganeuon fel rhan o'r gwasanaeth i'r ymwelwyr a rhieni a gwnaeth Jo Walters ein harwain yn y weddi Iesu Tirion.



Diolchwyd yn fawr i'r staff a'r pwyllgor am drefnu'r casgliad ac i'r rhieni a'r plant am eu rhoddion hael.

## *Llais yr Adar Gleision yn Dathlu 10*

Ers deng mlynedd nawr, Ali Yassine yw llais yr Adar Gleision – y llais sydd i'w glywed yn diddanu'r miloedd o gefnogwyr sy'n heidio'n wythnosol i Stadiwm Caerdydd gyda'i sylwadau ffraeth dros y meic, ei ddatganiadau dirmygus a'i ddewis doniol o ganeuon. Mae e'n aml yn taflu gwrthwynebwyr Dinas Caerdydd oddi ar eu hechel ac mae e hyd yn oed wedi llwyddo i achosi cwynion amdano ym mhapur newydd y *Sun*!




A sut cafodd e'r swydd honno? Wel, o gefnogi tîm pêl-droed y Brifddinas erioed, fe gynigodd Ali ei hun yn rheolwr newydd i Gaerdydd wedi ymadawiad Bobby Gould yn 2001 – ac er mawr syndod iddo, fe dderbyniodd alwad ffôn gan y clwb! Er na ystyriwyd ei gais i fod yn rheolwr, cynigiwyd iddo swydd arall, llawn mor bwysig: y cyfle i fod yn gyhoeddwr ar ran yr Adar Gleision yn Stadiwm Parc Ninian, a chyheoddwr dwyieithog at hynny.

Doedd dim troi nôl i Ali o'r diwrnod hwnnw ymlaen, a chwyddodd ei boblogrwydd, ynghyd â'r chwerthin o amgylch y stadiwm, gyda phob gêm. Yn wir, lai na chwe mis yn ddiweddarach cafodd wahoddiad gan Julian Jenkins i fod yn gyhoeddwr newydd Stadiwm y Mileniwm, a hynny yn ystod gemau rhyngwladol tîm Cymru Mark Hughes.

Yn ei hunangofiant newydd, *Was it something I said?*, mae Ali nid yn unig yn adrodd ei hanes, y da a'r drwg, ond yn mynegi ei farn ddi-flewyn-ar-dafod ar bynciau fel Mark Hughes a John Toshack, ei *arch nemesis*, rheolwyr y clwb a'r 'adar o'r unlliw', sef cefnogwyr yr Adar Gleision.

Ceir hefyd hanesion y digwyddiadau mwyaf anghyffredin a greodd argraff fythgofiadwy arno – megis 2008, pan gyrhaeddodd Caerdydd rownd derfynol y Cwpan FA, a'r Gymraeg i'w chlywed dros yr uchelseinydd am y tro cyntaf erioed yn Stadiwm Wembley, diolch i Ali.

Mae Ali Yassine yn rhan o chwedloniaeth Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd, a bydd ei lyfr llawn hiwmor yn siwr o roi pleser i bob cefnogwr pêl-droed yng Nghaerdydd a Chymru gyfan.

## Y Dinesydd

Golygydd y rhifyn hwn:
Hywel Jones

Golygydd y rhifyn nesaf (Chwefror):
Bryan James

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Chwefror erbyn 27 Ionawr i:
52 Highfields, Llandaf,
Caerdydd CF5 2QB
Ffôn: 029 20 566 731
db.james@ntlworld.com

**MANYLION CYSYLLTU**

**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James
16 Kelston Road, Caerdydd. CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

Noder bod y calendr nawr yn cynnwys digwyddiadau hyd at y 10fed o'r mis, sef dyddiad cyhoeddi'r Dinesydd.

**Hysbysebion**
Ceri Morgan
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812
ceri33@btopenworld.com

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones
22 Blaen-y-coed, Radur
Caerdydd, CF15 8RL

Cyhoeddir y Dinesydd gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyd gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd


# *Band Pres Melingruffydd*

Mae cystadlu yn rhan annatod o fyd y Bandiau Pres ac mae hi wedi bod yn flwyddyn anhygoel i Fand Pres Melingruffydd 2 (M2). Ym mis Mawrth fe enillodd y band Adran 4 Pencampwriaeth Cymru yn Neuadd y Brangwyn Abertawe. Roedd y fuddugoliaeth hon yn rhoi'r hawl iddyn nhw gystadlu ym mhencampwriaeth Prydain yn Cheltenham ym mis Medi, ac fe ddaeth y band yn fuddugol yno hefyd, yn curo deunaw o fandiau o bob rhan o Brydain. Yn ychwanegol at hyn, maen nhw wedi ennill yng nghystadleuaeth eu hadran yn yr Eisteddfod Genedlaethol ddwywaith yn olynol (Glyn Ebwy y llynedd a Wrecsam eleni), a Phencampwriaeth y Gorllewin ym Mhorth Tywyn. Melingruffydd 2 yw ail fand pres Dinas Caerdydd, ac mae'r aelodaeth yn gymysgedd o hen bennau profiadol a chwaraewyr ifainc talentog. Dywedodd yr arweinydd Dewi Griffiths, sy'n brif Gornedydd Band Tredegar, ac yn un o'r



ddau Gorn Gwlad – 'a chysidro mai ym mis Ionawr 2010 y cafodd y band ei sefydlu , mae'r hyn sydd wedi cael ei gyflawni yn anhygoel. Mae ymroddiad a brwdfrydedd yr aelodau i'w glodfori, ac mae'r dyfodol yn argoeli yn ddisglair iawn. Mae safon y chwarae yn uchel, ac mae pawb hefyd yn cael hwyl'. Yn ôl Ela Pari Huws, disgybl yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr 'roedd ennill yn Neuadd y Brangwyn, ac yn yr Eisteddfod am yr ail dro yn anhygoel, ond roedd mynd i Cheltenham a chael ein coroni yn bencampwyr Prydain yn rhywbeth y bydda i yn ei gofio am byth!'

Mae llwyddiant y band yn gynnyrch polisi datblygu talent Band Dinas Caerdydd. Mae yna ddau amcan. Yn gyntaf, meithrin chwaraewyr ifainc fydd yn eu tro yn symud i chwarae yn M1, y prif fand; ac yn ail, annog unigolion oedd yn arfer chwarae i ail gydio yn eu hofferynnau. Roedd Medi Williams sy'n Gynorthwyydd Dysgu yn Ysgol y Berllan Deg yn arfer bod yn aelod o Seindorf yr Oakley ym Mlaenau Ffestiniog. Ar ôl mynd i Brifysgol Aberystwyth, fe gymerodd hoe, ond mae bellach wedi ail gydio ac yn chwarae'r Tiwba yn M2, (yn ogystal â bod yn aelod o Gôr CF1). O Drefor, pentref arall enwog am ei fand pres y daw Meilir Tomos, sy'n athro yn Ysgol Pen y Garth ym Mhenarth. Fe fu'n chwarae i sawl band yn ne Cymru cyn cymryd hoe. Mae bellach wedi ail gydio yn ei drombôn (yn ogystal â chwarae pêl-droed i dîm Cymric).

Yn dilyn y llwyddiant hwn mae'r band wedi ennill dyrchafiad i Adran 3 Pencampwriaeth y Bandiau Pres yn 2012. Fe fydd y safon yn uwch, ond maen nhw'n hyderus y bydd y datblygiad a'r llwyddiant yn parhau.

## Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

**SIOP Y FELIN**,
54-60 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, CF14 1DJ
**SIOP PRIFYSGOL CYMRU**,
12 Stryd Fawr, Caerdydd, CF10 1AX
**CABAN**, 169 Kings Road, Pontcanna, CF11 9DE
**DERI STORES**, 1 Wenallt Road, Rhiwbeina, CF14 6SA
**VICTORIA FEARN GALLERY**,
6b Heol y Deri, Rhiwbeina, CF14 6HF
**HALLS**, 44 Stryd Fawr, Llandaf, CF5 2DZ
**HALCYON DAZE**,
55 Wellfield Road, Y Rhath, CF24 3PA
**SIOP LYFRAU WINDSOR**,
9a Windsor Road, Penarth, CF64 1JB
**FOOD FOR THOUGHT**,
12 High Street, Y Barri, CF62 7EA
**COFFEE LOUNGE**,
38 Station Road, Llanisien, CF14 5LT
**VEG VENDOR**, 8 Station Road, Radur, CF15 8AA

# NEWYDDION...

## Côr Aelwyd Hamdden



Daeth dros 70 o aelodau'r côr a'u ffrindiau ynghyd yng Nghlwb Golff yr Eglwys Newydd ar 17 Tachwedd i ginio blynyddol y côr. Y gŵr gwadd eleni oedd y Prifardd Aled Gwyn o'r Eglwys Newydd a chafwyd anerchiad difyr ganddo. Mae'r côr yn bwriadu trefnu cyngerdd ym mis Ionawr yn ogystal â chystadlu yn Eisteddfod Bro Morgannwg yn 2012.

## Cyfarchion

Hoffai Eilonwy Jones anfon cyfarchion y Nadolig at bawb a phob bendith yn y flwyddyn newydd.

## Anrhydedd i Gerddor Ifanc

Llongyfarchiadau i Elen Roberts ar gael ei derbyn i ganu'r bas dwbl yng Ngherddorfa Ieuenctid Prydain a hithau ond yn bedair ar ddeg oed ar hyn o bryd. Bydd yn ymuno â 165 o gerddorion ifanc gorau Prydain. Dechreuodd Elen ganu'r bas dwbl yn Ysgol y Wern ac erbyn hyn mae hi'n ddisgybl ym Mlwyddyn Deg yn Ysgol Gyfun Glantaf.

## Cangen y De o Gymdeithas Cymry-Ariannin

Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yn Festri Salem Treganna ar 23 Tachwedd a'r gŵr gwadd oedd Bob Pugh, cyn-Bennaeth Canolfan Antur Bannau Brycheiniog, a dangoswyd sleidiau o daith disgyblion Ysgol Gyfun Glantaf i'r Wladfa ddeng mlynedd yn ôl dan ei arweiniad. Cafwyd noson ddifyr dros ben.

## Capel Bethel Rhiwbeina

Dymunir yn dda a gwellhad buan i Gwyndaf Owen, Llandaf - ysgrifennydd ac organydd y capel - ar ôl llawdriniaeth yn Ysbyty'r Brifysgol.

## Llongyfarchiadau i...

- Dr Gethin Mathews, Rhiwbeinia ond gynt o Lundain ar ei benodiad i swydd darlithydd yn Adran Hanes a Chlasuron Prifysgol Abertawe;
- Emyr Lewis, gynt o Lysfaen, Caerdydd ar ei benodiad yn Uwch Gymrawd yn y Gyfraith ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae hefyd yn bartner hŷn yng Nghwmni Morgan Cole. Bydd yn cydweithio â'r Athro Richard Wyn James sef pennaeth Canolfan Llywodraethu Cymru yn y Brifysgol;
- Aled a Jenny James, Birmingham, ar enedigaeth Bethan ar 21 Tachwedd. Chwaer fach i Cerys ac wyres annwyl arall i Val a Bryan, Llandaf.

## Cydymdeimlir â...

- Mr a Mrs Ian Gwyn Hughes a'r teulu yn dilyn colli tad a mam Ian yn ddiweddar. Bu farw Mr Gwyn Rhys Hughes ym mis Gorffennaf a Mrs Gweirrul Hughes ym mis Tachwedd eleni. Cynhaliwyd y gwasanaethau angladdol yn ardal eu cartref ym Mae Colwyn ar y 7fed o Orffennaf a'r 22ain o Dachwedd;
- teulu y diweddar Elizabeth Beasley-Jones, Tredelerch ond gynt o Langennech a fu farw yn Hosbis Marie Curie, Penarth ar 19 Hydref. Bu'r angladd yn Amlosgfa Treforus ar 31 Hydref;
- teulu'r diweddar Tom Lloyd, Dinas Powys ond gynt o Rosllannerchrugog a fu farw yn 85 oed yn Hosbis Marie Curie, Penarth ar 2 Tachwedd. Bu'r angladd yn Nghapel Bethel, Penarth ac wedi hynny yn Amlosgfa Bro Morgannwg y Barri;
- teulu'r diweddar Geraint Griffith 85 oed a fu farw yn Ysbyty'r Brifysgol ar 7 Tachwedd. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 18 Tachwedd;
- teulu y diweddar Wynn Roberts, ei weddw Angela, eu merched a'i frawd Gwilym. Roedd yn byw ym Mhentyrch, a bu farw yn Holme Tower Penarth.

## Marw tad y Farwnes Eluned Morgan

Yn ei wythdegau yn Ysbyty Treforys ar 22 Tachwedd bu farw Bob Morgan, cyn-ficer Eglwys yr Atgyfodiad yn Nhreláí a chyn-arweinydd Cyngor Sir De Morgannwg. Bu'n weithgar iawn ac roedd yn uchel ei barch fel ficer yn ardal Treláí. Roedd yn aelod o'r blaid Lafur a daeth yn gadeirydd ar Gyngor Sir De Morgannwg yn 1981. Ar ôl ei ymddeoliad aeth ef a'i wraig Elaine i fyw yn Sir Benfro. Cydymdeimlir â'r teulu yn eu colled fawr.

## Swyddi newydd i ddau o Gaerdydd

Llongyfarchiadau i Dr Geraldine Lublin Treganna ond gynt o Buenos Aires ar ei phenodiad yn ddarlithydd Sbaeneg drwy gyfrwng y Gymraeg yn Adran Ieithoedd, Cyfieithu a'r Cyfryngau ym Mhrifysgol Abertawe.

## Nofel arall gan yr awdur o Riwbeina

Yn ddiweddar ymddangosodd y nofel "Un o ble wyt ti" gan Ioan Kidd yn y siopau. Cymru a'r Wladfa yw cefndir y nofel hon. Gwasg Gomer yw'r cyhoeddwyr a phris y nofel yw £8.99.

## Shakespeare yn Gymraeg

Cynhelir Gŵyl Shakespeare y Byd yn 2012 ac mae'r Theatr Genedlaethol yn bwriadu cyflwyno cynhyrchiad Cymraeg o ddrama Y Storm (The Tempest) ac fe'i perfformir yn Eisteddfod Bro Morgannwg. Defnyddir cyfieithiad Cymraeg gan y cyn-fardd cenedlaethol Gwyneth Lewis a fagwyd yng Nghaerdydd ac sy'n gyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Rhydfelen.

## Coron Eisteddfod Bro Morgannwg

Gemydd o Benarth sef Anne Morgan fydd yn cynllunio'r goron a gyflwynir yn Eisteddfod Bro Morgannwg y flwyddyn nesaf.

## Bywyd gwyllt

Ar 17 Tachwedd eleni cefais dri ymwelydd hollol annisgwyl i'm gardd yn Nraenen Pen-y-graig. Dwy Vanessa Atalanta (mantell goch) a phicwnen. Bach iawn oedd nifer yr ieir bach yr haf fu ar y goeden Buddleia yn ystod yr haf eleni felly roedd yn syndod gweld dwy mor bert ar flodau y llwyn Mahonia ynghanol Tachwedd. A'r bicwnen? Rhaid bod hon wedi drysu braidd oherwydd y tywydd annhymhorol. Wrth wylio'r tri ymwelydd hyn hawdd anghofio ei bod yn bwrw eira'n drwm, a'r gaeaf wedi cyrraedd, erbyn 26 Tachwedd y llynedd.

*Sally Evans*

menter caerdydd

**www.mentercaerdydd.org**
**029 20689 888**

### Ho! Ho! Ho!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr y Dinesydd gan bawb yn swyddfa Menter Caerdydd!

### Miri Meithrin

Bydd y Fenter yn cynnal sesiwn arbennig o Firi Meithrin, Dydd Iau, Rhagfyr 22 yng Nghanolfan Hamdden y Gorllewin, Trelai rhwng 10.30am a 12pm. Dewch i ganu a dawnsio gyda Martyn Geraint ac i gwrdd â Sam Tân a Holi Hana. Bydd gweithdai celf a chrefft, castell gwynt a lluniaeth ysgafn a llawer mwy. Croeso i blant 0 - 4 mlwydd oed.

Nid oes angen tocynnau o flaen llaw - £3 y plentyn/babi wrth y drws (yn rhad ac am ddim i rieni).

### Gweithgareddau Ieuenctid Ionawr 2012

Bydd y Fenter yn trefnu'r clybiau wythnosol canlynol ar gyfer disgyblion blwyddyn 7, 8 a 9 Glantaf a Phlasmawr yn 2012 – Theatr Ieuenctid Caerdydd, Clwb Ffotograffiaeth, Clwb Achub Bywyd a Chlwb Gwnio. Am wybodaeth lawn am amseroedd, prisiau a lleoliadau, ewch i wefan y Fenter a chliciwch ar y dudalen Ieuenctid.

### Cyrsiau'r flwyddyn newydd i oedolion

Mae Menter Caerdydd yn cynnig nifer o ddosbarthiadau nos i oedolion ar ddechrau 2012. Bydd 4 cwrs newydd ar gael – Ffotograffiaeth, Clocsio, Ymarfer Circuits ac Ysgrifennu Creadigol. Bydd cyfle hefyd i gadw'n heini gyda Zumba, Yoga ac Ymarfer Circuits neu ddysgu sgil newydd ar y cyrsiau Sbaeneg, Gitar, Creu Gwefan, Trefnu Blodau a Choginio. Am ragor o fanylion ewch i www.mentercardydd.org neu ebostiwch aweldavies@mentercaerdydd.org.

### Amser Fi Amser Babi

Ydych chi'n feichiog ar hyn o bryd ac eisiau siarad Cymraeg yn fwy hyderus? Bydd cyfres newydd o sesiynau i fenywod sy'n feichiog yn dechrau yng Nghanolfan y Chapter ar 2 Chwefror, 2012 am 1.15pm. Yn ystod y cwrs 4 wythnos bydd cyfle i ddysgu technegau ymlacio yoga a dod yn ymwybodol o'ch corff trwy fwyta'n iach mewn awyrgylch Cymraeg. Mae'r sesiynau'n arbennig o addas i ddysgwyr ac unigolion sy'n awyddus i ail gydio yn eu Cymraeg ar ôl dysgu'r iaith yn yr ysgol.

### Clwb Sgwrsio Ysgol Uwchradd Caerdydd

Mae staff y Fenter wedi dechrau mynychu sesiynau sgyrsiau anffurfiol gyda disgyblion y chweched dosbarth sy'n astudio Cymraeg yn Ysgol Uwchradd Caerdydd. Mae'r sesiynau, sy'n cael eu cynnal bob pythefnos, yn gyfle gwych i'r disgbylion ymarfer eu Cymraeg mewn awyrgylch hamddenol, ac yn gyfle i sgwrsio gyda phobl newydd tu allan i oriau'r dosbarth.

### Cwis y Mochyn Du

Bydd cwis yn cael ei gynnal Nos Sul, Rhagfyr 18 a Nos Sul, Ionawr 29 yn y Mochyn Du am 8pm. £1 y person. Mae croeso cynnes i bawb. Cofiwch bod y cwis ar Nos Sul olaf bob mis (heblaw am gwis y Nadolig).

### Dathlu Diwrnod Santes Dwynwen



Beth am drefnu 'DWYNWEN–O–GRAM' i rywun arbennig i ddathlu Santes Dwynwen ym mis Ionawr? Enwebwch eich gŵr, gwraig, cariad neu ffrind i dderbyn 'DWYNWEN-O-GRAM' arbennig Menter Caerdydd! Bydd un person lwcus yn derbyn tusw o flodau a photel o champagne i ddathlu Diwrnod Santes Dwynwen ar Ionawr 25, 2011. I enwebu, ebostiwch leanne@mentercaerdydd.org gan nodi pwy sy'n haeddu'r 'DWYNWEN-O-GRAM' a pham! Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau yw Dydd Iau, Ionawr 19, 2012.

### Penwythnos Teulu i Langrannog

Bydd y penwythnos poblogaidd hwn yn cael ei gynnal wythnos cyn y Pasg flwyddyn nesaf – Dydd Gwener, Mawrth 30 - Dydd Sul, Ebrill 1, 2012. Penwythnos llawn hwyl a sbri, gyda llu o weithgareddau yn cynnwys nofio, merlota, cwrs rhaffau, gwibgartio, sgïo, trip i'r traeth, twmpath, cwis a llawer mwy. Am fanylion llawn neu i gofrestru ewch i wefan y Fenter – neu ebostiwch leanne@mentercaerdydd.org.


## Llety gwyliau ar osod yn Edern Pen Llŷn.

Golygfeydd godidog, teithiau cerdded gwych, o fewn munudau i lan y môr. O fewn tafliad carreg i fae enwog Porthdinllaen a'i glwb golffio erbyn hyn. Digonedd i wneud, o ferlota, beicio, pysgota, hwylio, cerdded, bywyd gwyllt, henebion, i hamddena a llawer llawer mwy.

**Am fanylion pellach cysylltwch â Gwenan Hughes ar 01758 770363 neu e bostiwch taghughes@yahoo.co.uk**

# Colofn G.R.

Erbyn i hyn o eiriau ymddangos bydd y paratoadau ar gyfer dathlu'r Nadolig wedi magu stêm a Chalan Gaeaf a Noson Guto Ffowc wedi eu hen anghofio! Ces i ymweliadau gan dri grŵp o blant bach digon dymunol Nos Calan Gaeaf yn eu gwisgoedd gwrachod a sgerbydau ond methon nhw â chodi ofn arna'i!

Wrth weld y plant yn eu gwisgoedd Calan Gaeaf fe gofiais am brofiad eitha rhyfedd a ddaeth i'm rhan flynyddoedd yn ôl bellach. O'n i wedi mynd i'r Gogledd i aros gyda pherthnasau ac un diwrnod dangosais i'r defaid oedd yn fy mlino ar fy nwy law i'm cyfnither ac awgrymodd wrtha i y dylwn ymweld â'r wrach wen yn y pentref ac felly y bu! Doedd y wreigen ddim byd tebyg i wrach ac ar ôl poeri ar nifer o chippings a'u rhwbio dros y defaid dywedodd wrtha i i fynd adre ac anghofio amdanyn nhw. Yn wir i chi ychydig o wythnosau wedyn o'n i'n molchi cyn mynd i'r gwely a sylwais yn sydyn fod pob dafad wedi diflannu a ddaethon nhw fyth yn ôl!

Ydych chi'n teimlo'n flin weithiau wrth weld y pecynnau plastig gan wahanol elusennau yn dod drwy eich drws ac yn eich annog i'w llenwi hefo dillad glân ac ati? Yn ddiweddar es ati i rifo yr holl becynnau a gedwais dros y misoedd diwethaf a daeth y cyfanswm i ddau ar hugain! Anhygoel! Ond mae'n rhaid bod y cynllun hwn ar ran yr elusennau yn talu ffordd ac mae'n rhaid bod llawer o bobl yn cyfrannu tunelli o ddillad ac ati i'r elusennau hyn ac yn gwagio eu cypyrddau dillad yn aml!

Yn ddiweddar daeth y rhifyn cyfredol o bapur "Llais yr Andes" i law a ches fodd i fyw yn darllen hanes gweithgareddau'r Cymry yn yr Andes pell. Erbyn hyn mae tri phapur Cymraeg yn y Wladfa sy'n destun edmygedd i mi. Eleni mae papur Cymraeg hynaf y Wladfa sef "Y Drafod" yn dathlu cant ac ugain o flynyddoedd ers ei sefydlu. Yr ifancaf o'r tri phapur ydy "Clecs Camwy" a olygir gan Lois Dafydd o Fenter Iaith Patagonia.

Yn ystod y mis a aeth heibio ces i bleser anghyffredin yn darllen dau lyfr sef "Mynd i'r Gwrych" gan Hafina Clwyd a "Y Gwyddel o Geredigion i Galway" gan Diarmuid Johnson. Roedd cyfrol Hafina yn seiliedig ar ei dyddiaduron ac mae'r cynnwys yn ddifyr dros ben, ac mae iaith cyfrol Diarmuid yn pefrio ac yn bleser pur i'w darllen. Yn wir ar ôl darllen cyfrol arobryn Angharad Price "O! Tyn y Gorchudd" feddyliais i erioed y byddwn yn darllen cyfrol arall sy'n cystadlu â hi o safbwynt ansawdd ieithyddol. Mynnwch gopiau o'r ddau lyfr. Maen nhw'n werth eu darllen. Byddan nhw'n gwneud anrhegion gwerth chweil i ddarllenwyr "Y Dinesydd"!

# Merched y Wawr Bro Radur

Yng nghyfarfod y gangen ym mis Tachwedd, pleser oedd croesawu Eurgain Haf, Swyddog y Cyfryngau i elusen Achub y Plant. Diolchodd Eurgain i holl aelodau Meched y Wawr am eu cefnogaeth hael i Achub y Plant yn ystod 2011. Drwy gasglu hen ffônau symudol, cetris inc, hen stampiau a channoedd o sgidiau bron yn newydd, cyfrannodd MyW dros £9,000 i gronfa Achub y Plant. Dangosodd Eurgain sut mae'r elusen yn helpu plant sydd mewn angen a newyn mawr led led y byd. Soniodd hefyd am yr anghenion sydd gan blant yma yng Nghymru, a sut mae Achub y Plant yn cynorthwyo'r teuluoedd mewn modd ymarferol. Gobeithio byddwn i gyd yn dal ati i gefnogi gwaith pwysig Achub y Plant. Diolchwyd yn gynnes i Eurgain am ei chyflwyniad gan lywydd y gangen Val Scott. Bydd ein cyfarfod nesa ar 7 Rhagfyr ac wedyn yn 2012 ar 4 Ionawr. Croeso mawr i unrhyw ferch sy' am gymdeithasu yn y Gymraeg i ymuno â ni.



*Eurgain Haf, Swyddog y Cyfryngau i Achub y Plant*

Berwynfa, Penrhyn-coch
Aberystwyth, SY23 3EW
23 Tachwedd 2011
berwynfa@btinternet.com
01970 820939

Annwyl Gyfaill

**Dathlu 80 Mlynedd**

Mae Eglwys y Bedyddwyr Horeb, Penrhyn-coch, Aberystwyth yn dathlu 80 mlwyddiant ers agor y Festri a threfnwyd arddangosfa o luniau, dogfennau, hen raglenni, llestri, tariannau ayyb i nodi'r achlysur arbennig hwn.

Gwyddom fod nifer o bobl a fagwyd yn Horeb Penrhyn-coch bellach wedi symud i fyw i ardaloedd eraill yng Nghymru ac fe hoffem ofyn yn garedig drwy gyfrwng eich papur bro a oes gan eich darllenwyr unrhyw lun neu atgof arbennig am eu cyfnod yn Horeb. Byddem yn falch iawn o glywed ganddynt os yn bosib cyn Ionawr 1af, 2012.

Yn gywir
**Judith Morris**
Gweinidog Horeb, Penrhyn-coch

# Merched y Wawr Caerdydd

Yng nghyfarfod mis Tachwedd Merched y Wawr Caerdydd, daeth Allan James atom i rannu ei atgofion am ei famgu o Faesteg. Cafodd ei geni yn hen blwy Maesteg yn 1884 a bu'n byw yno nes ei bod yn 101. Pan oedd yn ei nawdegau, dan anogaeth ei hŵyr, fe gofnododd rai o atgofion ei phlentyndod yn ogystal â rhai am ei mamgu hithau, ar dâp ac yn ysgrifenedig.

Cawsom orig ddifyr yn gwrando ar y tapiau ohoni'n sôn am ei gwaith fel disgybl athro ifanc ac amdani'n fechan yn mynd i'r farchnad yng Nghastell Nedd gyda'i mamgu ac yn dod 'nôl â chocos a phob math o nwyddau i'w gwerthu yn eu 'siop parlwr' ym Maesteg. Diddorol fu clywed am y sefyllfa ieithyddol gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu siarad yn gymysg ac yn naturiol yn y cartref a'r Ysgol Sul tra roedd yr ysgol yn gyfangwbl Seisnig a'r dylanwad trwm a gafodd hynny ar y gymdeithas ym Maesteg yn gyffredinol. Ni allwn ond rhyfeddu at y newid mawr a fu ym mywyd merch mewn ychydig dros ganrif.




# Ôl-Lwybrau

## Eifion Wyn Hopwood

'Roeddwn mewn tŷ bwyta yng Nghaerdydd gyda nifer o ffrindiau yn ystod y Gwanwyn eleni. Wrth dderbyn taliad am y lluniaeth, awgrymodd y weinyddes wrthyf fod gen i acen dra gwahanol i weddill y criw! Eglurais mai deheuwyr oedd pawb ond y fi, ac mai acen Coedpoeth roedd hi'n ei chlywed. Es i gam ymhellach gan egluro fod y pentref ddwy filltir yn unig o faes yr Eisteddfod Genedlaethol, oedd i'w chynnal yn Wrecsam ym mis Awst. "I shall be on holiday in North Wales on those dates," meddai hi, "and I might turn in." Heb os, roedd yr Eisteddfod yn un hapus a llwyddiannus, a mawr glod i gymunedau fel Coedpoeth am eu gwaith a'u croeso cyn ac yn ystod yr Ŵyl. 'Rwy'n gobeithio fod y weinyddes fach wedi bachu ar y cyfle ac wedi cael blas ar bethau!

Er fy mod wedi ymadael â Choedpoeth ers bron i hanner can mlynedd bellach, mae'r atgofion am y dyddiau cynnar yn rhai pleserus, ac rwy'n ddiolchgar i'r unigolion a'r sefydliadau hynny a ddylanwadodd arnom fel plant a phobl ifanc i gadw'n hiaith a'n diwylliant yn fyw. Braf, er enghraifft, oedd bod yn "Seiat y Plant" ar fore Sul yng nghwmni'r Parchedig Tegla Davies (awdur a'n gweinidog yn ystod yr Ail Ryfel Byd) a Tom Carrington (Pencerdd Gwynfryn ac awdur y dôn 'Y Ddol' ar eiriau Moelwyn 'Y Pethau Da').

Dylanwad arhosol hefyd oedd bod yn aelod o Gôr Ieuenctid Coedpoeth - un o'r corau a ganodd ar ddiwrnod cyntaf Eisteddfod Rhyngwladol Llangollen yn 1947. Awgrym un o feibion Coedpoeth, Harold Tudor (gweithiwr ar y pryd gyda'r Cyngor Prydeinig) sbardunodd y syniad am Eisteddfod o'r fath. Rwy'n dal i ddal cysylltiad agos â ffrindiau a wneuthum o'r Almaen yn ystod y cyfnod hwnnw, ac rwy'n siwr bod hyn yn brofiad tebyg i nifer eraill hefyd.

Y tro cyntaf imi gael blas o'r "Sowth" oedd yn 1942 ar wyliau i'r mans Wesleaidd yn Aberdâr, ble 'roedd ewythr yn weinidog ar y pryd. Nes 'mlaen, es i'r brifysgol yn Abertawe a phriodi fy ngwraig Owena (o Bontarddulais). Ymadewais â Choedpoeth yn 1963 a derbyn swydd gyda 'Chyngor y Gwasanaethau Cymdeithasol dros Gymru a Mynwy' a gweithio o rif 2, Heol y Gadeirlan, Caerdydd. Blynyddoedd difyr oedd i ddilyn, yn cynorthwyo mudiadau gwirfoddol ledled Cymru - ond stori arall yw honno!

# Pasport



**Beth yw dy enw?**
Gwenno Uhi

**O le wyt ti'n dod yn wreiddiol?**
Bow Street, ger Aberystwyth

**Ym mha ran o Gaerdydd wyt ti'n byw?**
Bae Caerdydd

**Ers faint wyt ti'n byw yng Nghaerdydd?**
Ers mis Ionawr 2010

**Beth fuest ti'n ei wneud cyn[neu]ar ôl symud yma?**
Bum yn astudio Eidaleg ym Mhrifysgol Caerdydd tan 2005, yna treuliais 6 mis yn dysgu Saesneg yn Rhufain cyn dychwelyd i Aberystwyth a chael swydd yn y Llyfrgell Genedlaethol. Yn 2007 penderfynais deithio rownd y byd ar fy mhen fy hunan; 7 mis i ddechrau, yna 3 mis arall ar ôl cyfnod nôl adref, ac yn ystod yr ail daith yn Tonga y gwnes i gyfarfod fy ngŵr, Sa'ipolu.

Ar ôl treulio blwyddyn yn chwilio am waith yng Ngheredigion, symudais i weithio i Gaerdydd, ac yn dilyn cyfnod hir o tua 8 mis y llynedd yn brwydro yn erbyn y Swyddfa Gartref a'r gwahanol asiantaethau mewnfudo, priodais i a Polu fis Tachwedd 2010 ac rydym ni wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd. Dwi nawr yn gweithio i'r Network to Promote Linguistic Diversity (NPLD), sef rhwydwaith o ieithoedd lleiafrifol Ewropeaidd.

**Beth wyt ti'n hoffi ei wneud yn dy amser hamdden?**
Dwi'n hoff iawn o ddarllen nofelau, gwylio ffilmiau o wledydd tramor, a dwi'n hoff iawn o ddilyn chwaraeon. Dwi'n dwlu ar bêl-droed a rygbi...ond dwi'n credu mai pêl-droed yw'r ffefryn! Dwi hefyd yn ymddiddori mewn ieithoedd; ac ar hyn o bryd dwi'n ceisio dysgu iaith Tonga, ond dyw hi ddim yn mynd yn dda iawn, ac mae fy ngŵr i'n dysgu Cymraeg yn llawer cyflymach!

**Be sy'n gwneud i ti chwerthin?**
Mae fy nheulu'n gwneud i mi chwerthin, a dwi'n hoff iawn o wylio rhaglenni comedi megis Seinfeld, Arrested Development a Flight of the Conchords. Does dim ots sawl gwaith dwi'n gwylio'r rhaglenni hyn, dwi dal yn chwerthin bob tro!

**Beth sy'n dy wylltio di?**
Llawer o bethau! Ond yn bennaf gwleidyddiaeth, anghyfiawnder, a phobl sy'n dweud celwydd. Mae ymweld â'r banc yn aml yn fy ngwylltio i hefyd!

**Oes yna fannau yng Nghaerdydd rwyt ti'n hoffi mynd iddyn nhw? Pam?**
Dwi'n hoff iawn o'r Bae, ac yn hoffi byw yma. Mae'n ddigon agos i ganol y ddinas, ond hefyd yn teimlo'n bell oddi yno hefyd! Dwi'n hoff o ymweld â Chanolfan Gelfyddydau'r Chapter, Parc y Rhath a Pharc Bute pan mae'n braf, ond yn bennaf dwi'n hoff o fynd i Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd, Cathays. Mae pobl yr Eglwys fel ail deulu i ni, ac mae clywed yr Efengyl a medru addoli Duw yn fy iaith fy hun yn hollbwysig i mi.

**Lle rwyt ti'n hoffi mynd ar wyliau?**
Fy hoff lefydd i fynd ar wyliau yw'r Eidal a Tonga. Bum yn byw yn yr Eidal dair gwaith, a dwi'n gweld eisiau gwahanol agweddau ar y wlad ac felly'n trïo ymweld mor aml â phosib. Mae Tonga, ar y llaw arall, yn lle hollol wahanol. Mae bywyd yn arafach yno, a dwi'n hoff iawn o hyn! Mae'n wlad brydferth iawn gyda 170 o wahanol ynysoedd, traethau gwych, a chyfle i nofio gyda morfilod. Ac wrth gwrs mae gen i deulu i ymweld â nhw yno nawr!

**Beth ydy'r peth mwyaf unigryw am Gaerdydd? Pam?**
Mae'n ddinas sy'n teimlo'n eithaf cysurus a chartrefol gan ei bod hi'n ddinas weddol fach.

**Lle rwyt ti'n gweld dy hun mewn deng mlynedd?**
Hoffwn i fod nôl yn byw yng Ngheredigion erbyn hynny – er fy mod i'n hoff iawn o Gaerdydd, dwi'n gweld eisiau byw yn y wlad.

# YSGOLION

## Ysgol Bro Eirwg

**Dathlu Diolchgarwch**

Cawsom wasanaeth hyfryd i ddathlu Diolchgarwch. Roedd yn bleser gwrando ar neges ein gŵr gwadd, y Parchedig Owain Llyr. Cafwyd eitemau amrywiol gan bob blwyddyn yn ogystal â pherfformiad gan gôr yr ysgol. Casglwyd dros £240 tuag at yr elusen Cystic Fibrosis.

**Ennill y faner Platinwm**

Bu Cyngor Eco yr ysgol yn gweithio'n galed ers blynyddoedd i godi ymwybyddiaeth yr ysgol gyfan a'r gymuned leol o bwysigrwydd arbed, adnewyddu ac ailgylchu. O ganlyniad i hyn, rydym nawr yn un o'r grŵp arbennig o Eco-Sgolion Platinwm Cymru a byddwn yn ymuno â'r Pwyllgor-Eco Cenedlaethol yn ystod 2011-12.

**Ysgolion Iach**

Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod wedi ennill ein 5ed bathodyn ysgolion iach. Rydym yn parhau i hyrwyddo pwysigrwydd bwyta a byw'n iach ac mae'r plant yn deall pwysigrwydd ymarfer corff, bwyta prydiau cytbwys ac yfed digon o ddŵr bob dydd. Mae Cynllun Gwên yn parhau, ac mae'r plant yn frwdfrydig iawn wrth frwsio dannedd yn ddyddiol yn yr ysgol.

**Ymweliadau**

Gan fod plant Blwyddyn 1 wedi creu Caffi Bela yn eu dosbarthiadau, fe aethon nhw i ddysgu sut i wneud pitsa go iawn yn Dominos. Cafodd pawb amser gwych a daeth pob plentyn yn ôl i'r ysgol gyda pitsa hyfryd yn barod i'w fwyta i de! Diolch i gwmni Dominos am eu croeso unwaith eto .

Cafodd plant Blwyddyn 2 brofiadau gwych yn Sain Ffagan wrth ddysgu am fywyd yn y gorffennol fel rhan o'u cyd destun dysgu 'Ein Milltir Sgwâr'.

Bu plant Blwyddyn 3 ar ymweliad â'r Amgueddfa Genedlaethol er mwyn cymryd rhan mewn gweithdy i ddysgu am y Celtiaid. Fe gawson nhw ddiwrnod wrth eu bodd ac roeddent yn ysu am rannu eu gwybodaeth gyda phawb ar ôl cyrraedd nôl i'r ysgol.

Aeth Blwyddyn 6 i Wersyll yr Urdd yn Llangrannog a mwynhau'r cyfleoedd amrywiol sydd ar gael yn y gwersyll yn ogystal â dysgu am yr ardal o gwmpas y gwersyll.

**Gweithdy Drama**

Daeth Carys John i gynnal gweithdy drama gyda phlant Blynyddoedd 4 a 5 fel rhan o'i rôl fel aelod o dîm 'Big Talent'. Cafodd y plant fore gwych yn gwneud gwaith byr fyfyr ac yn dysgu technegau actio newydd sbon.



**Clwb Darllen**

Mae ein Clwb Darllen ar gyfer plant Blwyddyn 4 yn parhau i fynd o nerth i nerth. Mae gennym dystiolaeth i ddangos bod sgiliau a diddordeb y plant mewn darllen yn datblygu, ac rydym yn hynod o ddiolchgar i'n ffrindiau sydd yn dod i'r ysgol yn wirfoddol bob wythnos i wrando ar y plant yn darllen ac i drafod cynnwys y llyfrau.

Os oes gan unrhywun amser i ymuno â'r criw o wirfoddolwyr hapus, a fyddech mor garedig â chysylltu â'r ysgol - fe fydden ni wrth ein bodd i'ch croesawu.

## Ysgol y Berllan Deg

**Plant Mewn Angen**

Trefnodd Cyngor yr Ysgol lu o weithgareddau ar gyfer Diwrnod Plant Mewn Angen a daeth pawb i'r ysgol yn eu pyjamas. Llwyddodd yr ysgol i godi £463.09. Diolch i bawb am bob cyfraniad!

**Tripiau**

Ymwelodd Blwyddyn 6 â 'Crucial Crew' i ddysgu sgiliau ABCh a diogewlch personol. Cymerodd Blwyddyn 5 ran yng ngwasanaeth carolau yng Nghapel Tabernacl gyda disgyblion o ysgolion cynradd Cymraeg y Brifddinas a hefyd buont yn cymryd rhan yng nghywaith START mewn partneriaeth gydag Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn dysgu am gelf modern. Yn ogystal, aeth Blwyddyn 4 ar daith i Pets at Home i ddysgu am yr holl anifeiliaid anwes a bu Blwyddyn 2 ar ymweliad â Sain Ffagan.

**Chwaraeon**

Bu tîm rygbi'r ysgol yn chwarae yn erbyn Ysgol Christ the King – yn anffodus colli fu eu hanes o 5 i 7.

**Wythnos Ffrindiau**

Fel rhan o weithgareddau wythnos Gwrth Fwlio penderfynodd Cyngor yr ysgol alw'r wythnos yn Wythnos Ffrindiau. Bu'r plant yn brysur iawn yn llunio posteri Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth ac yn creu storïau ar y thema Ynni am Byth.

**Ysgolion Iach**

Rydym fel ysgol yn falch iawn o gael derbyn Cam 5 Ysgolion Iach. Y cam nesaf fydd y wobr genedlaethol.

**Masnach Deg**

Bu aelodau Pwyllgor Masnach Deg yr ysgol yn gwerthu diodydd Masnach Deg i'r rhieni.

**Diolchgarwch**

Diolch i bawb a ddaeth â 161.7kg o fwyd i'r ysgol ar gyfer Banc Bwyd Caerdydd. Cyflwynwyd y bwyd i'r elusen yn ein gwasanaeth Diolchgarwch.

**Cyfarchion**

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Curtis ar enedigaeth merch o'r enw Alexis, a hefyd i Mrs Mills ar enedigaeth Gruffydd.

**Sioeau'r Nadolig**

Cynhelir gwasanethau Nadolig Cyfnod Allweddol 2 ar Ragfyr y 13eg a'r 14eg yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed. Nadolig Llawen i bawb.

# Ysgol Pencae

**Ymweliadau â'r Amgueddfa**

Dewiswyd chwe disgybl o'r ysgol i fod yn llysgenhadon yr Amgueddfa er mwyn tywys ac annerch disgyblion ardal Hiraethog yn y Gogledd. Aethpwyd â hwy o amgylch yr orielau ynghyd â chanolbwyntio ar y modd yr adnewyddwyd coron Cerrigydrudion er mwyn ei harddangos yn yr Amgueddfa. Diddorol oedd cyferbynnu acenion plant y ddinas â phlant y Gogledd.

Aeth pob disgybl o'r Adran Iau i'r Amgueddfa er mwyn cymryd rhan mewn gweithdy Celf yn canolbwyntio ar gampweithiau yr arlunwyr Heinz Koppe ac Ernest Zobole, sef arlunwyr Cymreig enwocaf yr oriel newydd.

**Te gyda'r Dirprwy Faer**



Mwynheuodd Ffion, Catrin, Tomos a Morgan ddanteithion a phaned o de gyda'r Dirprwy Faer a'i gŵr yn Nhŷ'r Maer yn y Rhath. Cawson nhw eu tywys o amgylch y tŷ ynghyd â chael chyfle i sgwrsio a rhannu gwybodaeth am yr ysgol gyda hwy.

**Taith o amgylch y BBC**

Er mwyn dysgu mwy am yr hyn a gyflawnir yn y BBC, aeth disgyblion Blwyddyn 5 o amgylch yr adeilad gyda'r nod o ddyfnhau eu dealltwriaeth o fyd y cyfryngau. Cawson nhw eu tywys o amgylch y stiwdios newyddion, radio, gwrando ar Tim yn cyhoeddi pa raglenni sy'n dilyn y naill a'r llall ynghyd â'r cyfle i droedio stryd fawr Cwmderi. Diolch i Prys Dafydd, tad Lewys, am ein tywys o amgylch yr adeilad sydd dafliad carreg o fuarth yr ysgol.

**Yr Ŵyl Gerdd Dant**

Teithiodd aelodau dau barti i Bontyberem er mwyn cystadlu yn yr Ŵyl arbennig hon. Cipiodd parti 'Y Losin Du' yr ail wobr yng nghystadleuaeth y partïon alawon gwerin ynghyd â Nansi Rhys Adams a enillodd y drydedd wobr yn y gystadleuaeth canu cerdd dant. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw i gyd!




# Ysgol Pen-y-Groes

**Ffilmio gyda S4C**



Fe gafodd y plant brofiad gwych yn ffilmio hysbyseb Nadolig S4C gyda sêr Cyw ac S4C. Edrychwn ymlaen i'w gweld ar y teledu.

**Ysgol Iach**

Bu'r ysgol yn llwyddiannus yn ei cais am gam cyntaf yr Ysgolion Iach ac mae pawb yn falch iawn o'r ddeilen werdd.

**Clwb yr Urdd**

Mae Clwb yr Urdd wedi dechrau i ddisgyblion Blwyddyn 2. Mae pawb yn mwynhau y gemau a gweithgareddau celf.

**Diolchgarwch**

Mr Marc Jon Williams oedd y gŵr gwadd yn ein gwasanaeth Diolchgarwch a chafwyd stori ddifyr iawn ganddo yn dilyn gwasanaeth byr gan y plant.

**Gweithgareddau ac Ymweliadau**

- Cafwyd sioe ffasiynau gwisg ffansi lwyddiannus ar ddiwrnod Plant Mewn Angen ac fe gafwyd ymweliad gan Pudsey i ddiolch am yr holl arian a godwyd gan yr ysgol.



- Fe gafwyd Sioe Nadolig arbennig eto eleni. Roedd y plant wedi perfformio yn wych.
- Fe gafwyd prynhawn difyr iawn gan Flwyddyn 1 a 2 a fu'n dysgu am sut i ofalu ar ôl baban newydd. Diolch i Mrs Davies.
- Roedd pawb wedi mwynhau gweithdy cadw'r corff yn iach gyda Dr Della Williams.

# Ysgol y Wern

**Côr yr ysgol**

Mae'r côr yn brysur yn ymarfer ar hyn o bryd ar gyfer amryw o gyngherddau a fydd yn digwydd yn ystod y flwyddyn. Yn ystod Tymor y Nadolig, bydd y plant wedi

perfformio mewn nifer o gyngherddau amrywiol a phob un yn codi arian ar gyfer gwahanol elusennau – perfformiad yn Eglwys Ararat ar gyfer Hosbis George Thomas, Eglwys Gadeiriol Llandaf ar gyfer Sefydliad y Galon a pherfformiad yn Neuadd y Ddinas ar gyfer Ymchwil Cancr Cymru. Braf hefyd oedd derbyn gwahoddiad ar gyfer mis Ebrill 2012 i berfformio yn Neuadd Dewi Sant ar gyfer cyngerdd 'Noson o Ffilmiau a Dramâu Cerdd' a fydd yn codi arian ar gyfer Gofal Cancr y Fron. Mae aelodau'r côr yn edrych ymlaen yn eiddgar at berfformio yn y cyngherddau amrywiol.

**Dyddiadur Dripsyn**

Diolch i Owain Carbis, mae'r llyfr 'Dyddiadur Dripsyn' wedi cyrraedd y siopau ac yn siŵr o lenwi sawl sach yn ystod y Nadolig. Owain gafodd y syniad o gyfieithu 'The Diary of a Wimpy Kid' i'r Gymraeg. O ganlyniad i hyn fe dderbyniodd Owain wahoddiad gan gwmni Rily's i lansiad y llyfr lle cafodd gyfle i fynychu gweithdy cartwnau gan Huw Aeron. Uchafbwynt yr holl fwrlwm i Owain, heb os nac oni bai, oedd y sgwrs a gafodd gyda Jeff Kinney (awdur 'The Diary of a Wimpy Kid') yn fyw ar raglen 'Good Afternoon Wales' ar Radio Wales. Roedd Jeff Kinney wrth ei fodd taw plentyn a gafodd y syniad i drosi'r llyfr gwreiddiol.

**Ysgolion yn Erbyn Hiliaeth**

Derbyniodd yr ysgol newyddion da iawn yn ddiweddar, sef bod Elin Beynon o'r Dosbarth Derbyn wedi ennill y gystadleuaeth 'Ysgolion yn Erbyn Hiliaeth.' Fe fydd ei llun nawr yn cael ei gyhoeddi yng nghalendr 2012. Fe fydd Elin hefyd yn ennill tocyn llyfr gwerth £50 ac fe fydd yr ysgol yn derbyn rhodd o £150. Edrychwn ymlaen nawr at y seremoni wobrwyo ym mis Rhagfyr lle bydd Maer Caerdydd yn gwobrwyo Elin. Da iawn ti Elin.

## Ysgol Bro Morgannwg

**Gwobr Ewropeaidd i Ysgol Bro Morgannwg**

Mae athrawes ym Mro Morgannwg newydd ennill gwobr e-ddysgu Ewropeaidd o bwys. Wedi'i ariannu gan y Comisiwn Ewropeaidd, nod y gystadleuaeth oedd canfod arfer dda wrth gyfuno defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a dysgu ieithoedd ar draws Ewrop.

Mae'r enillydd, Ceri Anwen James, yn athrawes yn Ysgol Gyfun Bro Morgannwg yn y Barri. Yn ei hymgais i gyfuno dysgu Almaeneg a gwneud defnydd effeithiol o'r cyfryngau newydd, mae hi wedi creu gwefan ar gyfer y disgyblion sy'n astudio Almaeneg yn yr ysgol. Mae hi hefyd yn arwain Blog ar gyfer disgyblion blwyddyn 9 sy'n mynd i Grünstadt, a phodlediad fel bo disgyblion yn medru adrodd nôl ar eu profiadau yn yr Almaen.




Yn wreiddiol, dewisodd y panel o feirniaid y 10 arfer gorau o dros 80 o geisiadau a anfonwyd o wledydd ledled Ewrop. Dau sefydliad o Brydain oedd ar y rhestr fer, sef Ysgol Bro Morgannwg a Phrifysgol Durham. Cam olaf y gystadleuaeth oedd cyfweliad Skype gyda phanel ym Mhrifysgol Lwcsembwrg. Bydd Bro Morgannwg yn ennill cyfarpar technegol werth 1000 Ewro ac mae Ceri wedi cael ei gwahodd i'r seremoni wobrwyo yn Warsaw yn Hydref 2012.

**Cemeg ar Waith**

Gyda chymorth Martin Blamey o Yrfa Cymru cynhaliwyd diwrnod 'Cemeg ar Waith' yn Ysgol Gyfun Bro Morgannwg yn ddiweddar. Noddwyd y digwyddiad gan yr 'Royal Society of Chemistry' a rhoddodd 29 cyflogwr cemeg o'r ardal leol fewnbwn allweddol i'r diwrnod hefyd. Roedd y diwrnod yn un buddiol i tua 350 o fyfyrwyr. Yn ôl y 'Royal Society of Chemistry' dyma'r tro cyntaf i ddigwyddiad fel hyn gael ei gynnal yma yng Nghymru. Mwynhaodd y myfyrwyr o flynyddoedd 9 i 13 y diwrnod yn fawr iawn wrth iddynt gael blas ar brofiadau galwedigaethol.


**YN EISIAU: SWYDDOG BUSNES**

Menter y Fro
Eich bro, eich iaith
A voice for Welsh in the Vale

Mae **Menter y Fro**, y fenter iaith sydd yn gyfrifol am hybu yr iaith Gymraeg o fewn **Bro Morgannwg**, am benodi **Swyddog Busnes** ar gontract o 3 mis yn y lle cyntaf â'r posibilrwydd o estyn y contract ar sail perfformiad boddhaol. Swydd rhan-amser fydd hon, a thelir cyfradd o **£22 yr awr ar gyfer 14 awr yr wythnos (£40,000 p.a. pro rata)**. Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd chwilio am a gwireddu cyfleodd i gynyddu cyllid y Fenter tra'n sicrhau ei bod yn cyflawni ei gweledigaeth a gofynion ei hariannwyr presennol. Mae disgwyl y bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus brofiad o ddatblygu cyfleoedd busnes yn y sector gwirfoddol a gweithio gydag awdurdodau lleol.

Gellir darllen disgrifiad swydd a llenwi ffurflen arlein yn y cyfeiriad gwe yma:
**www.menteryfro.com/swyddog_busnes.php**

Dyddiad cau: **7fed Ionawr 2012.**

BWRDD YR IAITH GYMRAEG · WELSH LANGUAGE BOARD






- **Mae amrywiaeth lawn o'n cynhyrchion i'w gweld yn ein hystafelloedd arddangos yng Nghaerfyrddin a Chaerdydd**
- **Marciau barcud newydd ar bob ffenestr a drws**
- **Gwydr newydd sydd yn glanhau ei hun ac yn thermol effeithiol**
  - Gwarant deg mlynedd heb ddadl
  - Dim costau cudd, dim blaendâl
  - Dyfynbris am ddim heb ymrwymiad
  - Awdurdodwyd yn llwyr gan Secured by Design

NOLAN

**Prif Swyddfa:** 1 St Ivel, Heol Llansteffan, Tre-Ioan, Caerfyrddin, SA31 3BP
**Ystafell Arddangos Caerdydd:** 112 Heol Y Gogledd, Caerdydd, CF14 3AB
E-bost: sales@nolanupvc.co.uk

Ffôn: **0845 600 90 80 www.nolanupvc.co.uk**

**Gwobr Ysgol Ryngwladol**



Mae'r ysgol newydd dderbyn 'Gwobr Ganolraddol Ysgol Ryngwladol' gan y 'British Council' i'w llongyfarch ar y gwaith ardderchog sydd yn digwydd ar draws yr adrannau i wella gwybodaeth a dealltwriaeth ein disgyblion o ddiwylliannau a materion Ewropeaidd a rhyngwladol. Mae'r gweithgareddau dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys diwrnod pontio ieithoedd i Flwyddyn 6, ymweliad â Pharis i Flwyddyn 8, taith gyfnewid i'r Almaen i Flwyddyn 9, cyfnewid e-byst gydag ysgol yn Corsica i Flwyddyn 10, diwrnod ieithoedd y Bac i Flwyddyn 12 yn ogystal â chyfnewid gydag athrawon o'r India.

## Ysgol Glantaf

**Elusen Pen a Chalon**




Ar ddydd Iau, Hydref 13, cafwyd diwrnod arbennig iawn yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf i godi arian i elusen Pen a Chalon. Cynhaliwyd ras hwyl noddedig a daeth yr holl ddisgyblion a'r athrawon i'r ysgol mewn gwisg ffansi ac roedd safon uchel iawn i'r gwisgoedd. Roedd gwisgoedd amrywiol y disgyblion yn cynnwys nifer wedi'u gwisgo yn llwyr mewn un lliw e.e. glas y Smyrffs, gwyrdd y 'Green Giant', nifer fel babanod, arwyr cyffredin, 'superheroes', 'geeks' ac yn y blaen. Roedd yr athrawon i gyd wedi gwisgo yn dilyn thema arbennig eu hadrannau a gwelwyd Asiant CSI, dis, draig, mynach, Geiriadur Bruce, Sali Mali ac yn y blaen. Gwledd i'r llygaid oedd y gwisgoedd amrywiol a lliwgar a diolch i bawb am yr holl ymdrech. Prif nod y dydd oedd codi arian ac yn ffodus, roedd y tywydd yn braf iawn a chafwyd llawer o hwyl wrth gerdded (rhedeg) y ras.



Ar y nos Sadwrn ganlynol cafwyd noson fendigedig yn neuadd yr ysgol - gwledd o fwyd a noson yn llawn mwynhad o wylio a gwrando ar Sophie Evans, dawnswyr Debbie Chapman ac Only Men Aloud ymhlith eraill. Cafwyd raffl ac ocsiwn gwych gyda gwobrwyon penigamp. Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n brysur yn casglu'r arian a addawyd yn ystod y Ras Hwyl a'r Noson Gala a gobeithir bydd y swm yn cyrraedd o leiaf £20,000. Hoffai'r ysgol ac Osian a Cian ddiolch i bawb a gefnogodd.

**'Sioe, Sgript a Sgrîn'**




Cafwyd cyngerdd arbennig iawn gan ddisgyblion Ysgol Gyfun Glantaf ym mis Tachwedd, gyda disgyblion o bob oedran - o flwyddyn 7 i 13, tua chant a hanner ohonynt i gyd - yn perfformio'n egnïol a brwdfrydig o flaen cynulleidfa niferus, ac ôl graen ar eu gwaith. Yn ystod y noson, cyflwynwyd caneuon adnabyddus allan o sioeau cerdd amrywiol, darnau o gerddoriaeth allan o ffilmiau enwog, themâu rhaglenni teledu a hysbysebion. 'Roedd yma ddawnswyr, bandiau ac ensemblau o bob math, offerynwyr, cantorion ac actorion - digon at ddant pawb. Roedd y set, y goleuadau, y sgrîn, y cyfan yn ategu at y 'razamatazz' a hwyl a lliw y gyngerdd. Llongyfarchiadau mawr i bawb a gymrodd ran ac a wnaeth y 'Sioe, Sgript a Sgrîn' yn llwyddiant mawr.

## Ysgol Plasmawr

**Pwt o'r Plas**

www.plasmawr.cardiff.sch.uk

Llongyfarchiadau gwresog i Gareth Jones (Blwyddyn 13) ac i Siriol Burford am ennill gwobrau 'Aspire – Gwrth

fwlian Caerdydd 2011'. Hyfforddwyd Gareth i arwain grwpiau o ddisgyblion ifanc y mae angen cymorth arnynt i wella eu hunan-barch a'u hunanhyder ac mae wedi bod yn hanfodol i ddatblygu'r project yn yr ysgol yn ogystal ag ardaloedd eraill ledled Caerdydd. Mae Siriol yn gweithredu rhaglenni arloesol a chyfoes ac yn gwneud cynlluniau i fywyd yr ysgol sy'n cael eu defnyddio fel arfer da yng Nghaerdydd ac yn genedlaethol gan gynnwys y project cymorth cyd-ddisgyblion 'Merched Mentrus', 'Bechgyn Bonheddig' a rhaglen i rieni.




*Gareth Jones*
*enillydd Gwobr Gwrth Fwlian Caerdydd 2011*



*Siriol Burford*

Sôn am ein hannwyl Siriol, bydd Plasmawr yn dlotach lle wrth iddi adael am erwau brasach ysgolion Glyn Derw a Michaelston i ymuno â chyn brifathro'r ysgol, Geraint Rees. Bydd Siriol yn dechrau fel Dirprwy Bennaeth ym mis Ionawr.

Bu tipyn o gyffro ar daith ddrama Blwyddyn 10 i weld 'Les Mis' yn Llundain ddechrau Tachwedd. Daeth newyddion cyn y sioe bod Valjean, a chwaraewyd gan y Cymro Jonathan Williams, wedi llewygu a'i yrru i'r ysbyty! Serch hyn roedd y cast yn ôl o fewn pymtheg munud ac yn eu hanterth o dan arweiniad coeth Robert Vickers, a gafodd ei gipio o'r corws i chwarae Valjean ar y funud ola'!


Llongyfarchiadau i Miss Rhian Thomas sydd bellach yn Mrs Rhian Davies.

Ar 22 Tachwedd, cynhaliwyd diwrnod "Llythrennedd" i ddisgyblion Blwyddyn 8. Cyfres o weithgareddau gyda gwesteion megis Aneirin Karadog, Huw Aaron, a chyfle i wneud ffilmiau byr a gwaith Celf i hybu sgiliau llythrennedd y plant.

Mae gennym wefan newydd - yr un cyfeiriad, ond hafan newydd i ddathlu ein pen-blwydd yn 13 mlwydd a 2 fis! Be' nesa? Facebook Ysgol? Wel, fel mae'n digwydd....

A chofiwch ymuno â ni yng Ngholeg Cerdd a Drama Caerdydd ar nos Iau 15 Rhagfyr ar gyfer ein gwasanaeth Nadolig.

## DINESAIR Rhif 118




**Ar Draws**

1. Mae'r pâr yma yn dawnsio mewn lle adnabyddus (2,1,3)
4. Trafod dal dau yn ymryson (6)
7. Côr cymysg 'Y Cam Cyntaf' yn cael sbri ofnadwy ac yn talu'n ddrud (8)
8. Esra yn troi'n naddwr (4)
9. 'Rwy'n dlawd, 'rwy'n frwnt, 'rwy'n euog ____ ____ ______ im' (T.W.) (1,3,8)
13. Hapus ar ddechrau dydd llawn (4)
14. 'Er bod yr Arglwydd yn uchel, eto efe a edrych ar yr ____' (Salmau) (4)

15+21 'Roedd yn y wlad honno ____ ____ ____
Eu praidd rhag eu llarpio'n un lle' (S.E.) (10, 2, 6)

18. Bwyd anniben (4)
19. Cyfaill ar y daith o gwmpas Cymru fach (8)
20. Mae Tresaith heb Emyr yn troi'n lle prudd iawn (6)
21. Gweler 15

**I Lawr**

2. 'Rhy hwyr, ond odid, ar y daith
Fydd dechrau'r gwaith ____' (R.W) (5)
3. Ffordd i agor perl ac eneinio (9)
4. Cer i'r cefn yn Ffrainc (3)
5. 'O! Dawel ddinas Bethlehem
O dan ___ ___ ___' (B.D) (2, 3, 2-2)
6. 'A Mair ___ ___ ___ gwair
Wyliai ei baban tlws' (W.N.W) (2, 2, 5)
7. 100 + 50 + 0 = 8 (3)
10. Aderyn sy'n britho'r fan yn wyllt (9)
11. 'I ___ ___ ___'meiau gyd
Yn afon Calfari' (J.R.) (3, 1, 5)
12. 'Na wna i ti ddelw ____' (Exodus) (9)
16. Un yn y dail heb ei debyg (2-3)
17. Lle clyd i Nest yng Nghymru (3)
19. Cynffon yng ngwaelod yr ardd efallai (3)

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams, 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN erbyn 5 Ionawr.

**Enillydd Croesair Rhif 116 -**
### Heledd Hall, Treganna, Caerdydd

**Atebion Rhif 116**

**Ar Draws** – 1. Digysgod 6. Llwgu 8. Sinema 9. Rysait 10. Caboledig 13. Sgio 14. Gwe 15. Ynni 16. Camarwain 19. Deisyf 20. Afonig 21. Siôr 22. Sathredig

**I Lawr** – 2. Igio 3. Ychen 4. Gwahanglwyfus 5. Darfodedigaeth 6. Llysieuyn 7. Gwirioni 11. Sgrafelli 12. Bob amser 17. More 18. Miri

# Newyddion o'r Eglwysi

## Capel Ebeneser

**OCC**

Daeth criw bach ynghyd nos Iau, 10fed Tachwedd i bacio bocsys ar gyfer ymgyrch 'Operation Christmas Child'. Braint oedd cael bod yn rhan o'r ymgyrch a rhoi i blant, mewn gwledydd difreintiedig, anrhegion bach, a fyddai iddyn nhw, o'r trysor mwya'. Roedd gweld fideo yng ngwasanaeth y bore Sul canlynol, o blant yn gwenu wrth dderbyn bocsys o ymgyrchoedd blaenorol, yn llonni'r galon. Ewch i'r wefan www.samaritans-purse.org.uk i ddarllen am y gwaith sy'n cael ei wneud gan y mudiad a lansiodd yr apêl 21 mlynedd yn ôl.

**Sul yr Aelodau**

A hithau'n drydydd Sul yn y mis aethom unwaith eto, ar 20fed Tachwedd i Ganolfan Gymunedol Yr Eglwys Newydd. Cawsom gyfle i gyd-addoli yn y bore dan arweiniad Malcolm Thomas. Dau fyfyrdod oedd ganddo ar 'Glanhau Deg o Ddynion Gwahanglwyfus' a 'Cerdded i Emaus'. Cynhaliwyd yr ysgol Sul hefyd. Cymerwyd oedfa'r nos o wefan www.beibl.net. Testun y gwasanaeth, a luniwyd gan Alun Tudur, ein gweinidog, oedd 'Ffynhonnau'. Diolch i Petra Bennett am ddwyn y cyfan at ei gilydd. Diolch i'r rhai gymerodd ran yn y ddau wasanaeth.

**Dangos y ffordd**

Yr hen a ŵyr a'r ifanc a dybia medd yr hen idiom. Ond efallai ddim! Ym mis Ionawr bydd dau o ieuenctid y capel, Gwilym Tudur a Cai Maxwell yn dechrau cwrs Alpha Ieuenctid yn Undeb Cristnogol Ysgol Glantaf. Cwrs yw hwn sy'n cyflwyno'r Efengyl mewn ffordd ffres a chynhyrfus i bobl ifanc. Rhaid mentro allan a chyflwyno'r Efengyl i rai na fyddai'n ei chlywed. Diolch i Gwilym a Cai am ddangos y ffordd i ni'r rhai hŷn. Yr ifanc a ŵyr a'r hen a dybia?!

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn gyda Robert a Wendy Evans a'r plant Rebecca, Dafydd a Steffan yn dilyn marwolaeth tad Robert yn ddiweddar.

**Dymuniadau da**

...i Lisa Mair Williams wrth iddi ddechrau swydd newydd gyda chwmni KPMG yn Llundain.

## Eglwys Dewi Sant

**Yr Adfent**

Nos Sul 27 Tachwedd cafwyd gwasanaeth hyfryd iawn o lithoedd a charolau ar gyfer yr adfent. Y llywydd oedd y ficer Y Parch Dyfrig C. Lloyd, yr organydd Royston Havard a'r côr-feistr Ieuan Jones. Cafwyd eitemau pwrpasol iawn gan y côr megis Carol y Gannwyll gan John Rutter, Ave Maria gan Edward Elgar a Chân Mair Richard Shepherd gyda'r cyfieithiad Cymraeg gan un o'n haelodau Margaret Lloyd Hughes. Wedi'r gwasanaeth cafwyd cyfle i rannu gwydraid o win, lluniaeth ysgafn a sgwrs yn y neuadd.

**Cymdeithas Nos Iau**

Cafwyd noson ddifyr iawn ddiwedd mis Hydref ar ffurf y rhaglen deledu Siôn a Siân. Falmai (Dai Jones) Griffiths oedd wrth y llyw a'i chynorthwy-ydd oedd y ficer Dyfrig (Jenny Ogwen) Lloyd. Y tri phâr dewr oedd Cyril a Margaret Hughes, Mel ac Elvira Amos a Gwynn a Mair Matthews a'r enillwyr ar y noson oedd Gwynn a Mair. Diolch i bawb am yr adloniant a'r lluniaeth a gafwyd.

Ym mis Tachwedd daeth criw da at ei gilydd i noson gwis gystadleuol iawn yn y Mochyn Du. 'Roedd y noson – a'r gair olaf – yn nwylo medrus y cwis-feistri Ieuan Jones a Wyn Mears.

**Bedydd**

Fore Sul 20 Tachwedd bedyddiodd y Ficer Erin Hefina, merch fach Helen a Colin Chapman ac wyres Gwenda a Hugh Williams. Dymunir yn dda i'r teulu.

**Cymorth Cristnogol**

Yn ôl yr arfer stondin delicatessen oedd gennym yn y Ffair yn Salem Treganna fore Sadwrn 19 Tachwedd ac fe gafwyd bore llwyddiannus i'r achos haeddiannol hwn.

**Operation Christmas Child**

Eleni eto fe ymrwymodd yr Ysgol Sul a diolch i'r athrawon ymroddedig a'r plant am lenwi bocsys esgidie lliwgar yn llawn o anrhegion hyfryd.

## Minny Street

**Genedigaeth**

Croeso cynnes i'r efeilliaid, Lewis David a Dylan Huw, meibion Hannah a Gareth Murphy (Woking) ac wyrion i Rhiannon a Gerald Murphy.

**Priodas**


Dymunwn yn dda i Ruth (Gregory) ac Andrew Brown yn dilyn eu priodas yn Minny Street ym mis Tachwedd.

**Bedydd**

Hyfrydwch fu tystio i ddau fedydd yn yr oedfa foreol, 20 Tachwedd: dymunwn yn dda i Ianto Gruffudd Hughes, mab Elen ac Owen (Grangetown) a brawd bach Leisa, ac i Cerys Haf Ffion Rowlands, merch Bethan a Parri (Yr Eglwys Newydd).

**Sul y Cofio: *Llyfr Gwyn Caerfyrddin***

Eleni, ar Sul y Cofio, 13 Tachwedd, braint yr eglwys oedd croesawu *Llyfr Gwyn Caerfyrddin* - yng nghwmni



Y Parchg Owain Llŷr a Mererid Hopwood gyda'r *Llyfr Gwyn*.

Mererid Hopwood, aelod o Gell Caerfyrddin o Gymdeithas y Cymod - i'n plith. Wrth i'r gyfrol hardd hon deithio o amgylch Cymru, estynnir gwahoddiad i'w llofnodi, yn arwydd ein bod o blaid heddwch a chymod. Yn ystod oedfa foreol gynnar y diwrnod, cyflwynwyd Llyfr Gwyn Ysgol Sul Eglwys Minny Street, yn cynnwys llofnodion plant a phlantos yr eglwys, i Mererid, yn arwydd o ymrwymiad aelodau ifancaf y teulu i fyw mewn heddwch.

Yn ddiweddarach, wrth wahodd cynulleidfa'r oedfa foreol i dorri eu henwau yn y *Llyfr Gwyn* yn ystod gwasanaeth dwys ei naws, cyfeiriodd Mererid at y gwastraff o fywydau ac adnoddau a ddaw yn sgil rhyfela. Llwyddodd i'n syfrdanu trwy nodi y byddai traean o *'wariant milwrol byd-eang - tua 780 biliwn doler ... yn datrys holl broblemau sylfaenol y ddaear.'* Gofynnodd Mererid hefyd faint yw gwerth bywyd, gan gysylltu'r cwestiwn yn gynnil â cherdd Waldo, *Pa Beth yw Dyn?* Yn sicr, bu'r oedfaon yn gyfrwng ein dwysbigo a bu torri'n henwau ar dudalennau *Llyfr Gwyn Caerfyrddin* yn un o'r pethau hawsaf ac anoddaf y bu gofyn i ni ei wneud erioed.

Am holl newyddion Minny Street ewch i www.minnystreet.org.

## Salem Treganna

**Taith y Bobl Ifanc i Bwllderi, 2011**

Yn dilyn llwyddiant taith y bobl ifanc y llynedd i Bwllderi, sir Benfro, trefnwyd taith arall eleni i 15 o bobl ifanc a phump o arweinyddion dewr!

"Waw!" oedd ymateb cyntaf pob un wrth weld yr olygfa odidog o ystafell fwyta'r hostel, ac yn wir, mae hi'n olygfa arbennig sy'n dangos mawredd y cread ac sy'n cipio anadl dyn.

Thema'r penwythnos oedd bod yn rhan o dîm. Trefnwyd y penwythnos cyfan â'r thema yma'n gefndir. Rhannwyd y bobl ifanc yn dimau i olchi llestri a chlirio ar ôl prydau bwyd. Cafwyd cyfle i wylio'r ffilm *Invictus* sy'n arddangos sawl agwedd ar fod yn rhan o dîm ac arwain tîm. Roedd angen i'r ieuenctid gyd-weithio fel tîm i lwyddo yng ngweithgareddau hwyliog nos Sadwrn.

Cafwyd cyfle ddydd Sadwrn i gerdded rhan o lwybr yr arfordir ac ymweld â chanolfan Bluestone. Roedd y tywydd yn fendigedig a gwnaeth hyn y gweithgareddau'n fwy pleserus fyth.

I gloi'r penwythnos cafwyd oedfa hyfryd fore Sul o dan arweiniad y Parchg Evan Morgan lle cafodd yr ieuenctid gyfle i fynegi eu syniadau am berthyn i dîm yn ystod yr addoliad. Datblygwyd y drafodaeth gan roi ystyriaeth i holl oblygiadau bod yn rhan o dîm yr Iesu a sut gallwn weithredu'n ymarferol o dan ei arweiniad a'i hyfforddiant Ef.

Penwythnos bendigedig yn wir a'r cwestiwn ar wefusau'r bobl ifanc wrth droi ein golygon yn ôl at y Brifddinas oedd, 'Ble allwn ni fynd y flwyddyn nesaf?' Cawn weld!



**Bedydd**

Bedyddiwyd Tomos, mab Angharad a Marc Evans yn ystod y mis. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

**CIS**

Cawsom noson o flasu gwin hynod lwyddiannus o dan gyfarwyddyd Jonathan Nefydd.

**Ymweld â'r sinema**

Aeth ffilm buffs Salem i weld *The Help* yn ystod y mis. Ffilm arbennig o dda.

**Cylch Trafod Beiblaidd**

Cyfarfu'r cylch i drafod y bregeth ar y mynydd.

**Dathlu'r Nadolig – Oedfaon Salem**

**Rhagfyr 18:** 10.30 - oedfa o dan ofal yr Ysgol Sul; 6.00 - gwasanaeth y goleuni yn yr hwyr

**Rhagfyr 24 Noswyl y Nadolig:** 11.30 yr hwyr, Cymun

**Bore Nadolig:** 9.30 - gwasanaeth anffurfiol

Croeso cynnes i bawb!

## Tabernacl

**Cofio Caerwyn Roderick**

Cofiwn yn dyner am y gŵr addfwyn o Ystradgynlais a roddodd ei holl egni i helpu eraill. Gwasanaethodd fel athro ysgol, darlithydd coleg, aelod seneddol dros etholaeth Brycheiniog a Maesyfed, cynghorydd sir, ac llywodraethwr ysgolion. Er iddo gyfrannu'n helaeth i lu o feysydd, gŵr teulu oedd Caerwyn ac wrth ei fodd yng nghwmni ei briod Eirlys, a'i blant Alison, Catherine ac Alan, a'u hwyrion. Gwelai y da ym mhob un a safodd yn gadarn dros yr egwyddorion sylfaenol a gredai ynddynt.

**Diolchgarwch**

Elfen wahanol i'r arfer oedd cydnabod, mewn oedfa foreol, ugain mlynedd o weinidogaeth Denzil Ieuan John yn ein plith. Cyflwynwyd cyfarchiad iddo ar ffurf anerchiad gan Rob Nicholls a soned o waith Catrin Dafydd. Canodd plant y festri eiriau o waith Mair Long i'w gyfarch. Yn oedfa'r hwyr cyflwynodd Illtyd Lloyd werthfawrogiad o'r ugain mlynedd ar ran yr eglwys. Cafwyd eitem gerddorol gan Bedwarawd Hafod Wen, sef Luned, Dyfrig, Lynwen ac Aled.

**Ethol Diaconiaid Newydd**

Mewn oedfa arbennig diwedd Tachwedd, derbyniwyd Rhodri a Rhys ab Owen fel diaconiaid newydd yn yr eglwys – llongyfarchiadau i'r ddau. Tybed sawl gwaith dros hanes capeli Cymru yr etholwyd efeilliaid yn ddiaconiaid gyda'i gilydd?

**Cymdeithas Nos Fawrth**

Aeth dros bymtheg o'n plith i weld adeilad newydd Archifdy Morgannwg oddi ar Ffordd Sloper. Roedd y cyflwyniad yn dangos cymaint o adnoddau sydd yn y ganolfan, a hynny er budd ysgolion, myfyrwyr a'r cyhoedd. Nosweithiau difyr ac amrywiol dros ben oedd arlwy

gweddill y mis pan ddaeth Aled Hall, Heulwen Haf a Catrin Dafydd i'n difyrru.

**Cymdeithas y Chwiorydd**

Bu'n fis prysur i'r Chwiorydd gan ddechrau gyda Chwrdd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd. Yna Alwen Kemp, Mari Rogers, Eleri Rogers a Calan McGreevy a'n diddanodd weddill y mis.

**Perfformiad gan Aelwyd Llundain**

- **17 Rhagfyr** 'Atgof o'r Sêr', Aelwyd Llundain 7.30pm (£5 wrth y drws)

Perfformiad o waith poblogaidd Robat Arwyn ynghyd ag eitemau eraill wrth i aelodau Aelwyd Llundain ddychwelyd adre am y gwyliau.

## Y Crwys

**Y Gorlan**

Ar brynhawn dydd Mercher, 2 Tachwedd y Parchedig Kevin Davies gweinidog Eglwysi Annibynnol Bethel, Penarth a'r Tabernacl yn y Barri oedd ein gŵr gwadd. Cafwyd amser difyr iawn yn arddangos y grefft o roi blodau a dail i greu gloddest o liw mewn cefndir tymhorol. Cawsom eu cadw ganddo i'w defnyddio fel addurn yn yr oedfa y Sul dilynol. Bythefnos yn ddiweddarach ein gwestai oedd Gareth Rhys Davies y canwr opera adnabyddus sy'n aelod yn ein plith. Fel y gellid disgwyl, i fyd y llwyfan yr aeth Gareth â ni mewn môr o atgofion am ei ddyddiau cynnar ym myd y gân cyn iddo raddio i ymddangos mewn tai opera ar draws y byd. Dau gyfarfod a roddodd gryn ddiddanwch i bawb oedd yn bresennol.

**Y Gymdeithas Ddiwylliannol**

Ar nos Wener, 25 Tachwedd cafwyd noson o bigion hoff gerddoriaeth rhai o'r aelodau wedi eu paratoi yn gelfydd gan Robin Griffith a'u gosod ar dâp cyn eu cyflwyno i'r aelodau. Dewiswyd darnau o gerddoriaeth gan Carol Williams a Gareth Lloyd Jones tra i Glenys Roberts ddewis Emlyn Williams yn annerch y dorf yn Eisteddfod Genedlaethol Y Rhyl ar ddechrau pumdegau'r ganrif ddiwethaf.

**Cyngerdd**

Wedi'r oedfa ar nos Sul, 9 Tachwedd cafwyd noson gofiadwy yn gwrando ar Gôr C.F.1 yn cyflwyno cyngerdd o gerddoriaeth leisiol ac offerynnol o flaen cynulleidfa werthfawrogol iawn. Fe'n diddanwyd gan yr hen a'r newydd, y traddoddiadol a'r llai cyfarwydd o bedwar ban y byd ac nid anghofiwyd chwaith am ambell emyn Cymreig.

**Y Gymdeithas Ddrama**

Bydd aelodau y gymdeithas hon yn cyfrannu at stori'r Nadolig a welir ar ffurf meim tu allan a thu mewn i'r Tabernacl, Yr Ais hyd at y Nadolig.

**Y Grŵp Merched**

Ann Saer oedd gwraig wadd y grŵp yma ar ddechrau mis Hydref ac fel y gellid disgwyl gyda'i chefndir ym myd yr amgueddfeydd sy'n gwarchod trysorau ein cenedl, dilyn y trywydd hwnnw a wnaeth Ann gan gyfeirio yn arbennig at y datblygiadau diweddar ar y thema gwreiddiau. Ar ddechrau mis Tachwedd Orinda Roberts oedd y gwestai gyda chyflwyniad ar y testun Ddoi Di Dei. Fel y gellid disgwyl gyda thema fel yna, ar fyd y blodau y rhoddodd Orinda y pwyslais ar y noson hon.

## Glyndŵr yma o hyd

Nos Sadwrn 15 Hydref cafwyd araith ysbrydoledig gan y Dr John Davies yng nghinio Cronfa Glyndŵr yr Ysgolion Cymraeg. Roedd Clwb Golff Radur yn llawn dop a'r gynulleidfa wrth ei bodd yn gwrando ar yr athrylith yn olrhain ei brofiad fel archaeolegydd, un tro, yn twrio'r tir mewn man lle roedd lefel y nitrogen yn y pridd yn profi'n ddi-ffael bod Iolo Goch yn llygad ei le pan ddwedodd na cheid

'na gwall, na newyn, na gwarth,
na syched fyth yn Sycharth'.

Ond byrdwn ei neges oedd gwledigaeth fawr Owain Glyndŵr a'i ddyhead am gael i Gymru ei hunaniaeth wleidyddol, grefyddol ac addysgol. Cyfeiriwyd at Lythyr Pennal lle roedd Owain wedi addo teyrngarwch i frenin Ffrainc, Charles VI, o gael cefnogaeth hwnnw i sefydlu dwy brifysgol ar gyfer Cymru, ac eglwys annibynnol gydag offeiriaid rhugl yn y Gymraeg.

Mae elfennau o'r weledigaeth honno'n dal yn fyw heddiw, meddai, a phobl yn dal i lafurio, a brwydro, dros eu hawliau i sefydlu cyfundrefn addysg Gymraeg. Dyna arwyddocad enw'r Gronfa, meddai, ac anogodd bawb i'w chefnogi.

(Ceir manylion am Gronfa Glyndŵr ar www.cronfaglyndwr.net)

## Rysáit Mis Rhagfyr

### Mins Peis Penderyn gyda Macarwn

Dyma un o'm hoff ryseitiau ar gyfer 'mins peis' sydd hyd yn oed yn fwy blasus gyda briwfwyd cartref. Cadwch lygad arnynt wrth eu coginio i sicrhau bod y crwst wedi'i goginio a'r top heb frownio gormod. Yr her fydd dim ond bwyta un ar y tro!

Gweini 12

***Cynhwysion***

- 8 owns/225g crwst brau
- 8 owns/225g briwfwyd da
- 2 owns hylif/50ml chwisgi Penderyn Single Malt
- Croen ½ oren
- 2 wyn ŵy
- 3 owns/175g siwgr mân
- 4 owns/100g cnau almwn wedi'u malu
- Tun cacennau 12 twll wedi'i iro



Rholiwch y crwst a thorrwch 12 siap crwn gyda thorrwr crwst 3"/7.5cm. Defnyddiwch y darnau i leinio'r tun cacennau. Cymysgwch y briwfwyd, y chwisgi a'r oren mewn powlen a llenwch y darnau crwst gyda'r briwfwyd.

Curwch wynion yr wyau fel eu bod yn gadarn ond ddim yn sych. Ychwanegwch y siwgr i'r wyau gan droi yn ofalus – ychydig ar y tro. Ychwanegwch y cnau almwn i'r cymysgedd yn ofalus. Rhannwch y cymysgedd yn gyfartal a'i orchuddio dros y briwfwyd.

Pobwch ar wres 180°C/ neu Nwy Rhif 4 am 15 munud. Gadewch nhw i oeri ar hambwrdd. Ysgeintiwch siwgr eisin dros y macarwns. Gweinwch y cacennau yn dwym neu yn oer.

**Diolch i Ymgynghoriaeth Bwyd Howel (www.howelfood.co.uk) am y rysáit.**

# Calendr y Dinesydd • Rhagfyr-Chwefror

**Mercher, 14 Rhagfyr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Gwasanaeth a the parti'r Nadolig, yn festri Capel Minny Street am 1.00pm. Gŵr gwadd: Parch. Dyfrig Lloyd.

**Mercher, 14 - Gwener, 30 Rhagfyr**
Sherman Cymru yn cyflwyno 'Y Coblynnod a'r Cryddion' gan Mike Kenny, yn Theatr Weston, Canolfan Mileniwm Cymru, ar 14, 15, 17, 20, 21, 23, 29 a 30 Rhagfyr. Manylion pellach: 029-2063-6464.

**Sadwrn, 17 Rhagfyr**
Aelwyd Llundain yn perfformio 'Atgof o'r Sêr' yn y Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm.

**Mercher 21 Rhagfyr**
Clwb y Diwc. Noson Nadoligaidd i'r teulu gyda Band Melingruffydd a Bechgyn Bro Taf, yn y Duke of Clarence, Treganna. Mynediad £3 (oedolion) a £1 (plant).

**Sadwrn, 24 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Gwasanaeth carolau a chanhwyllau, dan ofal Rhys a Gwenda Morgan, yng nghapel Bethel am 11.00pm.

**Sadwrn, 24 Rhagfyr**
Gwasanaeth Plygain yng nghapel Pen-rhiw, Sain Ffagan am 11.30pm. Os ydych yn fodlon cymryd rhan, cysylltwch ag Eirlys (01446-760608).

**Mawrth, 3 Ionawr, 2012**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. 'Merched Trafferthus.' Sgwrs gan Dr R. Elwyn Hughes, yn festri Capel Minny Street, am 7.30pm.

**Mercher, 4 Ionawr**
Merched y Wawr Bro Radur. 'Cwpwrdd Dillad y Genedl.' Sgwrs gan Elen Phillips am gasgliad gwisgoedd a thecstiliau Amgueddfa Werin Cymru, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

**Iau, 5 Ionawr**
Clwb Gwawr 'Llygaid y Dydd'. Noson 'Pŵer y Positif', yng Nghlwb Bowls Pen-hill am 8.00pm. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch drwy dudalen Facebook ClwbGwawrCaerdydd neu drwy e-bost (clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com).

**Sul, 8 Ionawr**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Dathlu'r Plygain yn Eglwys Teilo, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, yng nghwmni'r Parch. Ddr R. Alun Evans.

**Llun, 9 Ionawr**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills am 7.30 pm. Siaradwraig wadd: Nerys Howell (Ymgynghoriaeth Bwyd Howel). Manylion pellach gan Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

**Mawrth, 10 Ionawr**
Cymdeithas Nos Fawrth y Tabernacl. 'Bro fy Mebyd' gyda Gwenllian Evans, Elvira Griffiths ac Ioan Bellin, yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm.

**Mawrth, 10 Ionawr**
Merched y Wawr Caerdydd. Heledd ap Gwynfor yn sôn am ei hymweliad â Burkina Faso yng ngogledd-orllewin Affrica, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed am 7.30pm.

**Mercher, 11 Ionawr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Hanes Teulu Abram Wood.' Sgwrs gan Teleri Gray, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Sadwrn, 14 Ionawr**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Angharad Ellis ar y testun 'Caerdydd a'r Rhufeiniaid' am 11.00am. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 14 Ionawr**
Prynhawn Hwyl Hen Galan yn yr Ystafell Ddarllen, Tresimwn am 2.00pm. Y Fari Lwyd, nwyddau'r Eisteddfod, pice ar y maen, crefftau, paentio wynebau a rhagor. Mynediad: £2 i blant. Yr elw at Eisteddfod y Fro 2012.

**Llun, 16 Ionawr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Noson gerddorol yng nghwmni disgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30pm.

**Llun, 16 Ionawr**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mawrth, 17 Ionawr**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Noson gartrefol o Hwyl a Sglodion, yn festri Capel Minny Street, am 7.30pm.

**Mawrth, 17 Ionawr**
Cymdeithas Nos Fawrth y Tabernacl. Noson yng nghwmni John Walter Jones, yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm.

**Gwener, 20 Ionawr**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Mari Emlyn ar y testun 'Llythyrau'r Wladfa', yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Cydnabyddir nawdd Llenyddiaeth Cymru.

**Mawrth, 24 Ionawr**
Cymdeithas Nos Fawrth y Tabernacl. 'Y Ddadl Falŵn' gyda Rhiannon Michael, Martin Cray a Denzil John, yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm.

**Mercher, 25 Ionawr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgwrs gan John Albert Evans, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Gwener, 27 Ionawr**
Merched y Wawr Bro Radur. Noson Santes Dwynwen – 'Yn ôl i'r '60au'! – yng Nghlwb Golff Drysgol Road, Radur.

**Mawrth, 31 Ionawr**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. 'Dŵr a Thân.' Sgwrs gan Llŷr Gwyn Lewis, enillydd Cadair Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2010 a 2011, yn festri Capel Minny Street, am 7.30pm.

**Mawrth 31 Ionawr**
Cymdeithas Nos Fawrth y Tabernacl. Cwis dan ofal Mererid Jenkins a Sian O'Callaghan, yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm.

**Gwener, 3 Chwefror**
Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan Catrin Dafydd ar y testun 'Ein Stori Ni', yng Nghapel Salem, Treganna, am 7.30pm.

**Llun, 6 Chwefror**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills am 7.30 pm. Siaradwraig wadd: Mererid Hopwood. Manylion pellach gan Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

**Mawrth, 7 - Sadwrn, 11 Chwefror**
Theatr Genedlaethol Cymru yn perfformio Sgint gan Bethan Marlow yn Sherman Cymru. Manylion pellach: 029-2064-6900.

**Mercher, 8 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgyrsiau gan rai o aelodau'r Aelwyd ar y testun, 'Y Llun ar Wal Fy Nghartref', yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Mercher, 8 Chwefror**
Cylch Cadwgan. Catrin Stevens yn siarad ar y testun 'Llenydda i Blant', yn festri Bethlehem, Gwaelod-y-garth am 8.00pm. Cydnabyddir cefnogaeth Llenyddiaeth Cymru.

**Sadwrn, 11 Chwefror**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. 'Bore arall gyda Bobs', yng nghwmni Huw Pritchard, am 11.00am. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 14 Chwefror**
Merched y Wawr Caerdydd, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed am 7.30pm.

**Mawrth, 14 Chwefror**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. 'Y Celfyddydau.' Sgwrs gan Elen ap Robert (Galeri Caernarfon), yn festri Capel Minny Street, am 7.30pm.

**Gwener, 17 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. 'Bydoedd Ned Thomas.' Awdur Llyfr y Flwyddyn 2011 yn trafod ei gyfrol arobryn yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Cydnabyddir nawdd Llenyddiaeth Cymru.

**Llun, 20 Chwefror**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Sgwrs gan Ann Saer ar y testun 'Oriel Newydd yr Amgueddfa Genedlaethol', yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30pm.

**Llun, 20 Chwefror**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. 'Sut mae anifeiliaid yn symud?' Darlith gan Dr Iwan Griffiths (Prifysgol Abertawe), yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

## Calendr y Dinesydd • Rhagfyr-Chwefror
*(Parhad)*

**Mercher, 22 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Datganiad cerddorol gan Huw Euron (enillydd y Rhuban Glas yn Eisteddfod Genedlaethol Glynebwy 2010), yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Mawrth, 28 Chwefror**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Dathlu Gŵyl Ddewi. Oedfa arbennig dan ofal y Parch. Owain Llŷr Evans, yn festri Capel Minny Street, am 7.30pm.

*Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at* Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

# CINIO BLYNYDDOL CYMDEITHAS CARNHUANAWC

Ar Tachwedd 4ydd eleni, eisteddodd tua deugain ohonom yn ystafell fwyta Gwesty Churchills ar achlysur Cinio Blynyddol Cymdeithas Carnhuanawc, yng nghwmni Angharad Mair a chyfeillion o Gylch Cinio Cymraeg Caerdydd.

Ar ôl y cinio siaradodd Angharad yn amserol iawn, ynglŷn â rôl y diwydiant darlledu mewn cefnogi agweddau diwyllianol ein bywyd beunyddiol Cymraeg. Gofynnodd sut buasai Carnhuanawc wedi gweld y sefyllfa heddiw – ac a fydd ail-drefnu S4C o dan adain y BBC yn bygwth neu gryfhau rôl y sianel yn amddiffyn yr iaith?

Cadwch lygad ar ddyddiadur Y Dinesydd, gwefan Carnhuanawc www.carnhunawc.org neu ar eich e-bost – ar gyfer manylion digwyddiadau Cymdeithas Carnhuanawc yn 2012. Mae nifer o bethau ar y gweill ar hyn o bryd, gan gynnwys Ysgol Fore (mis Mawrth); taith i Rydychen; Gwibdaith i Gaerfyrddin a Chydweli; Helfa Drysor; Darlith Carnhuanawc yn Eisteddfod Y Fro; a gwibdaith i'r Alban.

Yn y llun, gweler Angharad Mair gyda Llywydd Y Cylch Cinio, Alun Reynolds ar y chwith a Chadeirydd Cymdeithas Carnhuanawc, Keith Bush ar y dde.



# CYMDEITHAS WYDDONOL CYLCH CAERDYDD

Yn ein cyfarfod blaenorol cawsom ein tywys i entrychion ymenyddol damcaniaethu ffiseg. A fydd cymhwysiad ymarferol? Mewn gwrthgyferbyniad llwyr yn y cyfarfod dilynol (Tachwedd 21ain) roedd ein traed yn ddiogel ar y ddaear.

Dr. Mark Davies oedd ein tywysydd gyda theitl ei anerchiad – Diogelwch trwy Ddaearu Pŵer Trydan – yn rhoi rhyw fath ar dawelwch meddwl i ni y byddem oll yn deall ei sylwadau. Wedi'r cyfan onid yw pawb yn gyfarwydd â daearu trydanol? Oni welwn y rhuban metel sy'n rhedeg o ben tŵr eglwys a'r plwg cyffredin gyda'r pin hir o'r tri sy'n ffitio soced yn wal y gegin? Gwir hyn, ond cawsom olwg newydd ar yr ystyriaethau sy'n peri bod yr ymddangosiadol gyffredin yn cyflawni'r gofyn, sef, ein hamddiffyn rhag dolur, hyd at farw, ergyd sioc trydan. Nid batri tors bach gyda foltedd o 1.5v sy dan sylw ond offer sy'n darparu egni ar foltedd o filoedd o foltau.

Un o ardal Llanelli yw Mark. Cafodd ei addysg yn ysgol gynradd Parc y Tywyn, yn Ysgol Y Strade ac ym Mhrifysgol Caerdydd. Heddiw mae'n un o dîm bychan sy'n arbenigo mewn daearu trydan. Cwmni newydd yw Earthing Solutions. Mae'n arwydd o lwyddiant y cwmni ei fod newydd symud i swyddfeydd arbenigol ym Mhontyclun.

Datrys problemau daearu yw prif waith y cwmni. Cânt eu galw i amrywiaeth o leoliadau heriol, er enghraifft, mewn parc busnes ar gyrion tref neu faes parcio aml-lawr yng nghanol dinas. Y lleoliad a ddenodd fy sylw i yw'r is-orsaf sy'n uchel yn adeilad oriel y Tate Modern yn Llundain. Lleolir yr oriel adnabyddus hon mewn adeilad anferth a fu'n orsaf bŵer ar gyfer rhannau helaeth o Lundain. Erbyn heddiw dim ond is-orsaf sy'n aros ond rhaid ei daearu'n iawn.

Cawsom olwg ar agweddau ffiseg (a gofiwch Ddeddf Ohm?), bioleg (nodweddion perthnasol y corff dynol) a daeareg ( nid yw mathau gwahanol o ddeunydd pridd yn rhwystro llif trydan i'r un graddau).

Bydd ein cyfarfod ym mis Ionawr yn arbennig – siaradwr adnabyddus a lleoliad hollol newydd yn ein hanes.

*Neville Evans*

# Clwb Cymric

Mae'r tymor hyd yma wedi bod yn un llwyddiannus a llawn gobaith i dîm cyntaf Clwb Cymric gan ennill pob gem ond un yn y cynghrair a phedair cystadleuaeth cwpan. Yn dilyn curo Cefn Cribwr o bedair gôl i un mae Cymric nawr wedi cyrraedd rownd wyth olaf Cwpan Canolradd Cymdeithas Bêl-droed De Cymru. Mae'r profiadol Rhodri Charles yn arwain y ffordd gan ddarganfod cefn y rhwyd yn gyson! Yn dilyn newid i strwythur hyfforddi'r clwb, mae cystadleuaeth frwd am le yn y garfan wrth i'r clwb ymarfer ddwywaith yr wythnos. Nod y tîm cyntaf y tymor hwn yw esgyn i gynghrair Amatur neu Uwch De Cymru ac mae cytundeb rhannu cae gyda chlwb Caerau Ely o Gynghrair Cymru yn parhau. Dylai'r cytundeb hwn ateb gofynion cae a chyfleusterau Cymdeithas Pêl-droed De Cymru a'r cynghrair uwch sydd yn angenrheidiol cyn gallu esgyn. Er y cae cartref newydd, bydd y clwb yn parhau i ddychwelyd i'r cartref ysbrydol, tafarn y Mochyn Du, yn dilyn eu holl gemau i drafod hynt a helynt gemau'r dydd. Mae rôl yr ail dîm i gynorthwyo a datblygu chwaraewyr yn un gwerthfawr er bod canlyniadau yn amrywio ar y cae.

Am y tro cyntaf eleni mae'r clwb wedi sefydlu tîm dan 18, Clwb Ieuenctid Cymric (CIC) sydd yn cystadlu yng Nghynghrair Ieuenctid De Cymru gyda'r bwriad o roi cyfle i ieuenctid y ddinas barhau i fwynhau chwarae pêl-droed drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg tra'n datblygu chwaraewyr ar gyfer y ddau dîm hŷn yn ogystal. Mae'r perfformiadau wedi bod yn amrywiol gyda sawl uchafbwynt yn profi bod digon o botensial i'r garfan a dyfodol y clwb.

Os oes gennych ddiddordeb mewn chwarae, noddi neu helpu Clwb Cymric cysylltwch drwy'r cyfeiriad ebost canlynol: clwbcymric@hotmail.com neu'r wefan www.clwbcymric.com.